**PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
**31 Awst 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell am 9.30am ddydd Mercher, 31 Awst 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Dave Hughes, Jason Shallcross, Antony Wren, Sam Swash

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Eraill y Cynllun) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun).

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Elaine Williams, (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau)

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych), Y Cynghorydd Anthony Wedlake (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Sharon Carney (Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol).

Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Cynghorydd Annibynnol – Aon), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Neal Cockerton (Prif Weithredwr), Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth, Cronfa Clwyd), Sandy Dickson (Cynghorydd Buddsoddi - Mercer), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Alison Murray (Aon), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actiwaraidd – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Graddedig Buddsoddiadau).

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i'r Pwyllgor yn cynnwys y Cynghorydd Swash o Gyngor Sir y Fflint gan mai dyma ei gyfarfod cyntaf. Croesawodd y Cyng Ellis o Gyngor Sir Ddinbych a'r Cyng Wedlake o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd, oedd wedi cael eu penodi i'r Pwyllgor ond nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Murray yn ôl i'r Pwyllgor gan y bydd yn cyflwyno eitem 13.

12. **DATGAN CYSYLLTIADAU (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod aelodau o'i deulu yn aelodau o'r Gronfa Bensiynau a'i fod ef ei hun wedi gwneud cais i ddod yn aelod o'r Gronfa.

Cadarnhaodd y Cyng Swash hefyd ei fod yn aelod o'r Gronfa, Cyngor Cymuned Penarlâg a'r Undeb Prifysgol a Choleg.

Cadarnhaodd y Cyng Shallcross ei fod yn aelod o'r Gronfa a Chyngor Tref Saltney.

Cadarnhaodd y Cyng Wren ei fod wedi gwneud cais i ddod yn aelod o'r Gronfa a Chyngor Tref Cei Connah.

Mae'r Cyng Wren a'r Cadeirydd yn aelodau o Bwyllgor y Cyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint, a amlygwyd yn ystod eitem 6.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau eraill.

## 13. COFNODION 15 MEHEFIN 2022

Gofynnodd Mr Hibbert a oedd ei nodyn cywiro ar gyfer cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor wedi'i dderbyn. Dywedodd Mrs Fielder a Mrs McWilliam fod hwn yn cael ei ddiweddaru.

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022.

**PENDERFYNWYD:**

Cafodd cofnodion cyfarfod 15 Mehefin 2022 eu derbyn a'u cymeradwyo a bydd y Cadeirydd yn eu llofnodi unwaith y bydd y diweddariadau wedi'u gwneud.

## 14. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIYNAU CLWYD 2021/22

Cadarnhaodd Mrs Fielder fod adroddiad blynyddol 2021/22 i fod i gael ei gyhoeddi cyn 1 Rhagfyr 2022, oedd yn cynnwys y cyfrifon archwiliedig. Diolchodd i Mercer am eu cefnogaeth i gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol oherwydd bod Cyfrifydd y Gronfa wedi gadael ym mis Ebrill 2022. Eglurodd Mrs Fielder fod Mr Ferguson, Swyddog Adran 151 y Gronfa wedi adolygu'r cyfrifon ac roedd ei sylwadau wedi cael eu hystyried. Cadarnhaodd hefyd fod y Gronfa'n cydymffurfio ag arweiniad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a gynhyrchwyd yn 2019 o'r enw "Paratoi Adroddiad Blynyddol" cyn belled â phosibl.

Aeth Mrs Fielder drwy'r adroddiad blynyddol gan dynnu sylw at nifer o feysydd yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Amlygodd adroddiad y Cynghorydd Annibynnol ac adroddiad y Bwrdd Pensiynau bod y polisi seiber wedi cael ei gymeradwyo, cynnydd rhagorol ar flaenoriaethau a thargedau buddsoddiad cyfrifol y Gronfa yn ogystal â'r gwelliant parhaus mewn gweinyddu er gwaetha'r cynnydd mewn niferoedd achosion.
- Mae'r adroddiad gweinyddu yn atodiad 4 yn dangos, ers y pandemig, bod gweithwyr wedi parhau i weithio o gartref yn ystod 2021/22. Roedd cynhyrchiant yn parhau'n uchel ac roedd mwy na 31,000 o achosion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd nifer y cofrestriadau ar gyfer

hunan wasanaeth aelodau o 36.1% i 48.4%. Roedd 52 o'r 54 cyflogwr yn y Gronfa bellach yn defnyddio iConnect.
- Hyd at 31 Mawrth 2022, roedd y Gronfa wedi cynnal sefyllfa a gyllidir yn llawn yn unol â thudalennau 83 i 86 yr eitem Gyllid a Llwybr Hedfan. Gan fod y gronfa mewn blwyddyn werthuso, byddai'r sefyllfa gyllid yn cael ei hadolygu'n ffurfiol a byddai'r fframwaith rheoli risg yn monitro effaith chwyddiant a chyfraddau llog cynyddol fyddai'n parhau ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifo a bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o osod rhagdybiaethau.
- Perfformiodd y Gronfa yn dda yn ystod y flwyddyn fel yr amlinellir ar dudalennau 85 i 103 gan y cyflawnodd y Gronfa enillion ar fuddsoddiad o 13.3% am y flwyddyn yn erbyn meincnod y Gronfa o 9.1%. Y cyfartaledd awdurdod lleol ar gyfer y ffigwr hwn oedd 8.6%. Mae hyn yn golygu fod y Gronfa yn ail ym mydysawd Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cymheiriaid.
- Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd y portffolio syniadau gorau a gyflawnodd 20.3% a'r portffolio marchnadoedd preifat gydag enillion o 26.4% i gyd, ac o hynny roedd enillion ecwiti preifat yn 36.0% a'r portffolio effaith leol yn 40.3%. Ar y llaw arall, roedd enillion ecwitïau marchnadoedd byd-eang a marchnadoedd newydd yn 2.3%, oedd yn groes i enillion y flwyddyn flaenorol o 42.2% pan lwyddodd marchnadoedd preifat i wneud enillion o 4.6% yn unig.
- Parhaodd y Gronfa i wneud ymrwymiadau i asedau marchnadoedd preifat gan ffafrio'r rhai ag effaith gynaliadwy neu gylch gwaith lleol.
- Yn ystod y flwyddyn trawsnewidiwyd mwy o asedau i'r WPP, sef ecwitïau marchnadoedd newydd. Roedd y dyraniad strategol 10% yn awr yn cael ei reoli gan Russell Investments, oedd yn dod â chyfanswm buddsoddiadau'r Gronfa yn y WPP i 32%.
- Dangosir cyfrifon y gronfa ar dudalennau 104 i 139. Y prif feysydd i'w nodi oedd:
    - Cynyddodd asedau oedd yn cynnwys arian parod ond nid asedau net o £2.2 biliwn i £2.5 biliwn.
    - Cynyddodd cyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr £3.4 miliwn.
    - Cynyddodd trosglwyddiadau i'r Gronfa, oedd yn anodd eu hamcangyfrif, £3.5 miliwn.
    - Roedd incwm dros wariant, ac eithrio ffioedd ac incwm buddsoddi yn £4 miliwn o'i gymharu â £2 filiwn y llynedd.
    - Roedd y newid yng ngwerth marchnad y buddsoddiadau yn cynnwys elw a cholled a wireddwyd a hefyd yr enillion/colledion na wireddwyd ym mhrisiad yr asedau yn ystod y flwyddyn. Roedd y cynnydd i werth y farchnad o £261 miliwn yn is eleni, gan fod gwerthiannau £200 miliwn yn is na'r llynedd.
    - Ar dudalennau 115 i 116, amlygodd treuliau rheoli bod costau gweinyddu wedi cynyddu £210,000 ers y llynedd. Roedd hyn oherwydd costau TG a staffio oedd wedi bod yn y gyllideb ar gyfer

2021/22. Cynyddodd y costau trosolwg a llywodraethu £334,000 oherwydd ffioedd cyfreithiol uwch yn ymwneud â buddsoddiadau newydd mewn marchnadoedd preifat a'r gefnogaeth gynyddol gan ymgynghorwyr ar farchnadoedd preifat.

- Roedd tudalen 146 yn dangos y costau gwirioneddol yn erbyn y cyllidebau, a chafodd £436,000 ei danwario i gyd yn erbyn cyllideb o £25.8 miliwn. Roedd dadansoddiad mwy manwl ar gael yn atodiad 8.
- Roedd tudalen 143 yn dangos y llif arian gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a'r amrywiant sylweddol, sef yr incwm dosbarthu o'r marchnadoedd preifat, oedd yn well na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.
- Roedd tudalennau 155 i 162 yn rhoi mwy o fanylion am gynnydd yr WPP hyd yma.
- Byddai adran 4 yn cynnwys dogfennau rheoleiddio'r Gronfa, oedd wedi cael eu cymeradwyo'n flaenorol gan y Pwyllgor, megis y Datganiad Strategaeth Gyllid, y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, Polisi Llywodraethu a'r Strategaeth Gyfathrebu. Byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y ddogfen derfynol a gyhoeddir. Cyfeiriwyd hefyd at ddogfennau arfer gorau eraill yn ymwneud â'r gronfa.
- Roedd atodiad 2 yn cynnwys yr ymateb drafft i lythyr archwilio ac ymholiadau Archwilio Cymru ar gyfer 2021/22 a thynnwyd sylw at y newidiadau. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor nodi'r ymateb.

O ran y diweddariad economaidd a'r farchnad, amlygodd Mr Cockerton ei bryderon am y pwysau chwyddiant fyddai'n effeithio ar y Gronfa, gan nodi fod y mater hwn ar eitem yn nes ymlaen ar y rhaglen.

Diolchodd Mr Ferguson i Mrs Fielder a'r tîm am y gwaith caled ar y cyfrifon. Roedd wedi adolygu'r cyfrifon cyn iddynt gael eu cyflwyno ac roedd yn hapus iddynt gael eu cyflwyno i Archwilio Cymru. Cadarnhaodd Mr Ferguson y byddai gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cyfrifon terfynol archwiliedig yng nghyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor.

Ar dudalen 95, tynnodd y Cyng Swash sylw at y cyfeiriad at y targed uchelgeisiol y byddai gan y buddsoddiadau yn y Gronfa allyriadau carbon sero net erbyn 2045. Gwyddai'r Cyng Swash am gronfeydd eraill oedd â tharged allyriadau carbon sero net erbyn 2030, felly gofynnodd am fwy o gyd-destun. Dywedodd Mr Harkin ei fod yn uchelgeisiol yng nghyd-destun portffolio presennol y Gronfa i gydbwyso risgiau ar hyd y llwybr i fod yn sero net. Dywedodd pe bai'r Gronfa yn symud eu portffolio'n rhy gyflym, gallai hyn arwain at risgiau sylweddol i'r Gronfa. Roedd yn ymwneud â chanfod cydbwysedd rhwng risgiau a pheidio â rhoi eich cyfrifoldeb ymddiriedol i aelodau mewn perygl. Ychwanegodd Mr Latham fod y Gronfa yn bwriadu cynnal sesiwn gyflwyno i helpu aelodau newydd ddeall sut mae'r targed sero net 2045 wedi cael ei osod.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft y Gronfa ar gyfer 2021/22 yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft.
(b) Nododd yr Aelodau'r llythyr Ymholiadau Archwilio a'r ymateb.

15. **CYFLWYNIAD COD STIWARDIAETH**

Cyflwynodd Mr Latham yr adroddiad hwn gan dynnu sylw at y ddau argymhelliad ar dudalen 185. Roedd yr atodiad yn cynnwys yr Adroddiad Stiwardiaeth drafft, fyddai angen cael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Hydref, cyn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Dyna pam y gofynnir i'r Pwyllgor ei ystyried yn y cyfarfod hwn a dirprwyo cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau terfynol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Ychwanegodd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd Mercer wedi cefnogi'r gwaith o ddrafftio'r Adroddiad Stiwardiaeth ac roedd yn cynnwys materion y mae'r Gronfa yn eu gwneud eisoes, wedi eu gwneud yn y gorffennol, neu'n bwriadu eu gwneud yn y dyfodol.
- Roedd y gronfa'n rhan o'r WPP, oedd eisoes wedi cyflwyno adroddiad ar gyfer y Cod Stiwardiaeth yn gynharach eleni.
- Roedd dau draean o asedau'r Gronfa y tu allan i'r WPP, felly roedd Mr Latham yn credu ei bod yn iawn i'r Gronfa hefyd ddod yn llofnodwr y Cod.
- Wedi iddo gael ei gyflwyno, byddai'r Cyngor Adrodd Ariannol yn rhoi sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, os oedd y cyflwyniad yn llwyddiannus neu beidio. Os bydd yn llwyddiannus, bydd ar y Gronfa angen dangos datblygiad a gwelliannau parhaus, gan eu bod angen ailymgeisio'n flynyddol i gadw statws fel llofnodwr.
- Dywedodd Mr Latham fod egwyddor 1 yn cynnwys diffiniad o stiwardiaeth - *"Mae pwrpas, credoau buddsoddi, strategaeth a diwylliant y llofnodwyr yn galluogi stiwardiaeth sy'n creu gwerth hirdymor i gleientiaid a buddiolwyr gan arwain at fuddion cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas".*
- Roedd paragraff 1.07 yn amlygu'r pedair prif adran a'r 12 egwyddor sylfaenol.
- Roedd paragraff 1.09 i 1.12 yn amlygu'r prif feysydd a sut yr ymdrinnir â nhw drwy'r Gronfa neu'r WPP.
- Roedd paragraff 1.13 ymlaen yn rhoi'r prif bwyntiau i'w nodi fel rhan o'r cyflwyniad. Roedd Mr Latham yn credu mai un o feysydd cryfaf cyflwyniad y Gronfa oedd y portffolios marchnadoedd preifat, ble mae gan y Gronfa bwyslais cynaliadwy.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys y cyflwyniad drafft.
(b) Dirprwyodd y Pwyllgor gyfrifoldeb ar gyfer cymeradwyo'r cyflwyniad terfynol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

15. **DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU**

Tynnodd Mr Latham sylw at yr argymhellion a'r pwyntiau allweddol canlynol i'r Pwyllgor:

- Roedd canlyniad arolwg effeithiolrwydd y Bwrdd Pensiynau wedi'i grynhoi yn atodiad 3.
- Roedd yr argymhellion yn cynnwys newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad a Phrotocol y Bwrdd Pensiynau fel yr amlinellir ym mharagraffau 1.04 i 1.09. Roedd y prif newidiadau'n cynnig symud cyfrifoldebau oddi wrth y Prif Weithredwr blaenorol i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Roeddent hefyd yn cynnig ychwanegu'r Rheolwr Corfforaethol Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol at y Panel Ymgynghorol, yn lle'r Prif Weithredwr. Roedd y Swyddog Monitro wedi ystyried y newidiadau ac wedi eu cefnogi. Y camau nesaf fyddai i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor eu hystyried, cyn iddynt fynd gerbron Cyngor Sir y Fflint i'w cymeradwyo. Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Wren eu bod yn aelodau o Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ond roedd Mr Lathan a Mrs McWilliam, y Cynghorydd Annibynnol yn teimlo nad oedd gwrthdaro yn y rolau hyn, ac os rhywbeth, byddai'n ddefnyddiol iddynt fod yno.
- Roedd diweddariad gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn atodiad 5.
- Fel y dangosir ym mharagraff 1.11, bu penodiadau newydd yn dilyn ymddiswyddiad llawer o weinidogion yn yr Adran Ffyniant Bro, Tai a'r Gymuned.
- Roedd gwybodaeth ym mharagraff 1.13 am ddyfarniad newydd gan y Goruchaf Lys fyddai'n debygol o effeithio ar y Gronfa a chyflogwyr. Roedd CLlL a'r Corff Cymeradwyo yn ymwybodol o'r mater a dywedodd Mr Latham y bydd angen i'r Gronfa wneud newidiadau ôl-weithredol i gofnodion efallai yn cynnwys cyfrifiadau buddion. Y gobaith yw y bydd canllawiau cenedlaethol maes o law.
- Amlinellwyd digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol ym mharagraff 1.14 a gofynnodd Mr Latham i aelodau'r Pwyllgor gysylltu â Mrs Fielder os oeddent yn dymuno mynychu. Roedd yr hyfforddiant ar Adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi i fod i gael ei gynnal ar 5 Hydref, a phwysleisiodd fod hwn yn hyfforddiant hanfodol a'i bod yn bwysig bod aelodau'n mynychu.
- Roedd risg allweddol yn ymwneud â'r anawsterau recriwtio a chadw. Roedd y mater hwn yn cael ei ystyried gan y Panel Ymgynghorol oherwydd yr effaith mae'n ei gael ar y Gronfa.

Yn dilyn pryderon Mr Hibbert a godwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol am lythyr Michael Lynk ar Balestina, awgrymodd Mr Hibbert fod y Gronfa'n adolygu rhan 'Gymdeithasol' yr ESG yn ymwneud â'r cwmnïau y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddynt. Dywedodd Mr Latham fod gwaith ar y gweill gyda'r WPP a Robeco ar y mater hwn. Ychwanegodd Mrs Fielder fod grŵp Buddsoddi

Cyfrifol WPP yn cyfarfod yn rheolaidd â Robeco i drafod themâu ymgysylltu a'r stociau a chyfranddaliadau sy'n cael eu pleidleisio arnynt a'u hymgysylltu â nhw yn y meysydd hyn, a chyfeiriodd at yr atodiadau i eitem naw ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad a'i nodi.
(b) Ystyriodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor a Phrotocol y Bwrdd Pensiynau, o ran y cyfrifoldebau'n ymwneud â'r gronfa bensiynau ac argymhellodd i'r newidiadau arfaethedig gael eu hystyried gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ac yna eu cymeradwyo gan y Cyngor.
(c) Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Amserlen Dirprwyo Swyddogaethau i Swyddogion.

17. **DIWEDDARIAD GWEINYDDU A CHYFATHREBU**

Amlygodd Mrs Williams fod yr eitem hon ar y rhaglen ar gyfer ei nodi a siaradodd am y pwyntiau allweddol canlynol.

- Roedd y tîm yn brysur gyda busnes fel arfer, rhaglen McCloud, paratoi dangosfwrdd bwrdd pensiynau cenedlaethol ac ail gyfrifo buddion aelodau o ganlyniad i ddyfarniad cyflog ôl-weithredol 2021/22.
- Amlinellwyd y materion o ran adnoddau ym mharagraff 2.01, oedd yn dangos nifer y swyddi gwag oedd ar gael yn y Gronfa ac unrhyw benodiadau a wnaed. Ers i'r papur gael ei ddrafftio, roedd y Gronfa wedi cyfarfod â chynghorwyr AD ac roeddent wrthi'n gwella geiriad yr hysbyseb swydd i ddenu ymgeiswyr yn well. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys newidiadau i deitlau swyddi i gynnwys y gair "gweinyddu" fel y byddai'n ymddangos mewn mwy o chwiliadau am swyddi. Roedd disgwyl i'r hysbysebion fynd yn fyw yn yr wythnosau nesaf.

Holodd y Cyng Hughes a oedd y gronfa wedi meddwl am gyflogi prentis. Cadarnhaodd Mrs Williams fod gan y Gronfa ddau brentis yn barod, felly ni fyddai mwy yn cael eu cyflogi eleni gan fod y pwyslais presennol ar recriwtio aelodau mwy profiadol i'r tîm.

Yna, cyflwynodd Mrs Williams sleidiau hyfforddi am y dangosfwrdd pensiynau cenedlaethol ac amlygodd y canlynol:

- Mae datblygiad y dangosfwrdd pensiynau cenedlaethol yn berthnasol i bob cronfa bensiynau (nid dim ond y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol) ond canolbwyntiodd y sesiwn ar sut y bydd yn effeithio ar Gronfa Bensiynau Clwyd.
- Mae'r prosiect dangosfwrdd yn cael ei gynnal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau; bydd yn caniatáu i unigolion weld eu holl wybodaeth cynlluniau pensiwn mewn un lle i helpu i gynllunio ar gyfer ymddeoliad ac

ymgysylltu mwy. Fe’i cynlluniwyd ar gyfer aelodau nad ydynt wedi ymddeol eto (aelodau gweithredol a gohiriedig) – nid i bensiynwyr.

- Mae angen i’r Rheoleiddiwr Pensiynau, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Trysorlys Ei Fawrhydi, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, darparwyr y system dangosfwrdd, rheolwyr y cynllun a gweinyddwyr darparwyr meddalwedd i gyd weithio gyda’i gilydd ar y prosiect hwn er mwyn iddo gael ei ddarparu ar amser.
- Mae’r gofynion yn cael eu rhoi mewn deddfwriaeth i orfodi cynlluniau i ddarparu gwybodaeth drwy ddangosfwrdd. Felly roedd gofyn i’r Gronfa baratoi data i gysylltu ag eco-system y dangosfwrdd pensiynau.
- Byddai aelodau nad ydynt wedi ymddeol yn cael mynediad at fanylion trefniadau pensiwn, manylion cyflogaeth, pensiwn cronedig ac amcangyfrif o incwm ar ôl ymddeol. Fodd bynnag, disgwylir cyfyngiadau o fewn y dangosfwrdd hwn felly roedd Mrs Williams yn awyddus i hyrwyddo Hunan Wasanaeth Aelodau’r Gronfa gan fod hyn yn golygu mwy o ymgysylltu uniongyrchol ag aelodau.
- Mae’n ofynnol i bob cynllun sector cyhoeddus gael eu rhoi ar yr isadeiledd dangosfwrdd pensiwn erbyn mis Medi 2024, ond nid yw hyn yn golygu y bydd aelodau’n cael mynediad ato erbyn mis Medi 2024. Disgwylir y bydd yn mynd yn fyw tuag at ddiwedd 2024.
- Hefyd, nid oedd angen darparu un elfen o’r data, sef data gwerth, hyd nes mis Ebrill 2025, oherwydd bod y gwaith parhaus ar y rhaglen McCloud yn golygu na fydd y wybodaeth hon yn barod erbyn mis Medi 2024 efallai.
- Pan fydd y dangosfwrdd pensiynau’n mynd yn fyw, bydd aelod yn mewngofnodi i’r dangosfwrdd, dilysu eu gwybodaeth a bydd eu manylion yn cael eu hanfon at y Gwasanaeth Darganfod Pensiwn. Yna byddai’r wybodaeth yn cael ei hanfon at bob cynllun pensiwn yn y DU a bydd gofyn iddynt ymateb i gadarnhau a yw’r manylion yn cyd-fynd â chofnodion eu cynllun. Pan fydd cofnod yn cyd-fynd, anfonir tocyn ‘Pel’ (Dangosydd Pensiwn) i’r dangosfwrdd ac mae’r dangosfwrdd yn dychwelyd y tocynnau i’r cynlluniau fel bod mwy o ddata’n cael ei ddarparu. Yna mae cynlluniau’n darparu mynediad at y data pensiwn priodol drwy’r dangosfwrdd fel bod yr aelod yn gallu ei weld.
- Ni fydd y dangosfwrdd pensiynau’n cadw data yn barhaus, a bydd angen i aelodau fynd drwy’r un broses ddilysu i gael mynediad at eu gwybodaeth yn nes ymlaen.
- Amcangyfrifir y gallai pob cynllun pensiwn gael hyd at 20,000 o ymholiadau’r dydd yn gofyn am baru gwybodaeth.
- Gallai’r cynllun ddychwelyd manylion sy’n cyd-fynd yn rhannol ond rhaid darparu manylion cyswllt. Pan fydd wedi’i ddychwelyd, bydd gan aelod 30 diwrnod i gysylltu â’r cynllun a chadarnhau eu gwybodaeth pensiwn.
- Roedd gofyn i gynlluniau sicrhau eu bod yn cymryd camau rhesymol, diwyd i chwilio am wybodaeth sy’n cyd-fynd a lleihau’r risg o fynediad diawdurdod at ddata neu beidio dychwelyd manylion pensiwn sy’n cyd-fynd.

- Ar gyfer amcangyfrif o bensiwn ymddeol, byddai angen i aelodau gweithredol yn y Gronfa (mewn cynlluniau DB) weld ffigwr a ragwelir ar eu hymddeoliad yn seiliedig ar eu cyflog presennol. Byddai angen i aelodau gohiriedig weld eu pensiwn ar ddyddiad gadael wedi ei ailbrisio i ddyddiad cyfredol yn unol â rheolau'r cynllun.
- Roedd angen i'r Gronfa fod yn ymwybodol hefyd o reolau cynllun â chyfraniadau diffiniedig a chydymffurfio â nhw (yn ogystal â rheolau cynllun â buddion diffiniedig) oherwydd bod gan y Gronfa gynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol y mae rhai aelodau'n cyfrannu atynt. Ar gyfer y rhain, byddai angen i aelodau weld eu pot pensiwn cronedig, cyfanswm eu pensiwn a ragwelir (yn unol â darluniau prynu arian) a chyfanswm pensiwn cronedig (yn seiliedig ar ddarluniau prynu arian ond heb gyfraniadau'r dyfodol a thwf buddsoddiad).
- Roedd disgwyl i gynlluniau ddychwelyd gwybodaeth ERI cyn pen 10 diwrnod gwaith ar gyfer y prif Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a 3 diwrnod gwaith ar gyfer y cynlluniau AVC, a allai fod yn heriol iawn mewn achosion pan nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn hawdd, megis aelodau sydd wedi gadael eu gwaith yn ddiweddar ond nad yw buddion gohiriedig wedi eu cyfrifo ar eu cyfer.
- Dan y ddeddfwriaeth, y Gronfa sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gysylltu â'r dangosfwrdd pensiynau, ynghyd â deall cyfyngiadau'r dangosfwrdd, sicrhau bod data a chyfrifiadau ar gael, cadarnhau bod gofynion paru yn cael eu defnyddio, delio ag ymholiadau parhaus, cadw data'n gyfredol ac adrodd rheolaidd a gweinyddu o ddydd i ddydd.
- Rhan allweddol o'r gwaith dros y ddwy flynedd fyddai sefydlu'r rhyngwyneb rhwng meddalwedd gweinyddu'r Gronfa a darparwr y dangosfwrdd pensiynau. Mae'n bosibl y gallai'r un cwmni meddalwedd ddarparu'r ddau.
- Y prif dasgau y mae'n rhaid i'r Gronfa eu gwneud fel awdurdod gweinyddu er mwyn paratoi yw:
    - Deall y fframwaith Dangosfwrdd Pensiynau.
    - Cynllunio a pharatoi cynllun prosiect yn arwain at y dyddiad gweithredu.
    - Archwilio parodrwydd data yn cynnwys y gallu i ddarparu buddion cyfrifedig ERI.
    - Cadarnhau gofynion paru.
    - Ystyried cyfathrebu ag aelodau.
- Hyd yma, mae'r Gronfa wedi cymryd rhan gyda'r Grŵp Dangosfwrdd PLSA a Grŵp Profi Altair, wedi bod yn cynnal ymarfer glanhau data parhaus ac yn ddiweddar, wedi cwblhau ymarferion olrhain cyfeiriadau ac ad-daliadau wedi rhewi. Gobeithio y bydd hyn yn lleihau nifer y paru rhannol sydd gan y Gronfa wrth symud ymlaen.
- O safbwynt llywodraethu, mae'r Gronfa wedi bod yn cysylltu ag Aon yn ogystal â Heywood, cyflenwr meddalwedd gweinyddu'r Gronfa, oherwydd pwysigrwydd hyn a'r goblygiadau o ran adnoddau.

- Ni ellir pennu costau parhaus a gofynion adnoddau ar hyn o bryd ond byddant yn dod gerbron y Pwyllgor maes o law.

Gofynnodd Mr Hibbert a oedd y rhai sy'n gyfrifol am y prif ddangosfyrddau yn cymryd cyfrifoldeb am y wybodaeth sy'n cael ei darparu ar y dangosfwrdd, oherwydd risgiau ymosodiadau seiber. Roedd Mrs Williams yn disgwyl na fyddent yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am hyn ond amlygodd ei fod yn cael ei lywodraethu gan ganllawiau llym sydd wedi eu sefydlu'n genedlaethol. Cadarnhaodd y byddai'n edrych i mewn i hyn i sicrhau bod y gronfa'n gyfforddus am y mater hwn. Dywedodd Mrs McWilliam y byddai'r dangosfwrdd fel switsfwrdd, felly er y gallai aelodau gael mynediad at y wybodaeth, ni allent ei chadw'n gorfforol. Dywedodd Mrs Williams, pe bai'r gronfa yn paru yn anghywir ac yn ei anfon yn ôl, byddai hynny'n golygu bod y Gronfa'n torri amod.

**PENDERFYNWYD:**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad.

18. **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU**

Nododd Mrs Fielder y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y cynllun busnes ar y trywydd iawn ar hyn o bryd o ran y gwaith ar y prisiad actiwaraidd a datganiad y strategaeth fuddsoddi. Fodd bynnag, roedd y datblygiadau'n ymwneud â buddsoddiad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ei hôl hi oherwydd yr oedi gyda'r ymgynghoriadau oedd i fod i gael eu cynnal yn yr haf.
- Un peth newydd ar gyfer y chwarter hwn gan WPP oedd y wybodaeth ddiweddaraf am bleidleisio ac ymgysylltu a benthyca stoc. Byddai hyn yn cael ei ddiweddaru'n barhaus yn y dyfodol. Robeco oedd yn cynnal y pleidleisio ac ymgysylltu a Northern Trust oedd yn cynnal y benthyca stoc.
- Roedd tudalennau 419 i 464 yn trafod y gweithgaredd ymgysylltu a phleidleisio a gynhaliodd Robeco ar ran WPP. Roedd y stociau a restrwyd yn yr adroddiad ar gyfer WPP yn gyffredinol ac roeddent yn cynnwys yr holl is-gronfeydd, nid y rhai yr oedd y Gronfa yn buddsoddi ynddynt yn unig. Roedd y Gronfa yn buddsoddi mewn tair is-gronfa ar hyn o bryd.
- Byddai'r Gronfa yn ymgysylltu â Robeco yn flynyddol ar bynciau ymgysylltu i'r dyfodol. Os bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn dymuno i unrhyw themâu gael eu trafod yn y dyfodol, gallai Mrs Fielder eu rhoi ymlaen i gael eu cynnwys.
- Roedd crynodeb o'r gweithgaredd pleidleisio yn yr adroddiad ac roedd yr is-grŵp UC wedi derbyn yr adroddiadau pleidleisio unigol y tu ôl i'r crynodebau.
- Maes arall yr oedd y grŵp UC yn edrych arno oedd benthyca gwarannau ac roedd crynodeb o'r incwm a grëwyd yn y stoc ym mharagraff 1.08.
- Ers y cyfarfod diwethaf, roedd buddsoddiad pellach wedi'i wneud yn y Copenhagen Infrastructure Partners Energy Transition Fund. Roedd hyn

yn unol ag awydd y Gronfa i fuddsoddi'n fwy cynaliadwy, gan gefnogi ac elwa o gyfleoedd y byddai'r pontio i economi carbon isel yn eu creu.

- Roedd y Gronfa hefyd yn gweithio gyda Mercer ar 5 neu 6 o gyfleoedd buddsoddi ychwanegol mewn meysydd cynaliadwy ac effaith.
- Roedd sawl newid i'r gofrestr risg yng ngoleuni'r risgiau cynyddol oherwydd lefelau cyfraddau llog a chwyddiant. Byddai'r rhain yn parhau i gael eu monitro'n agos.
- Mae'r heriau o ran adnoddau a recriwtio, y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol, hefyd yn effeithio ar y Tîm Cyllid gan fod ganddynt dair swydd wag ar hyn o bryd - cyfrifydd cronfa, cyfrifydd dan hyfforddiant a swydd llywodraethu a gweinyddu.

**PENDERFYNWYD:**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad.

19. **CYFUNO ASEDAU**

Llongyfarchodd Mr Latham y Cadeirydd am ei swydd newydd fel Is-Gadeirydd y WPP am 12 mis.

Dywedodd Mr Latham fod y Gronfa Ecwiti Cynaliadwy wedi cael ei chymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu, ac roedd hyn wedi cael ei sbarduno gan y Pwyllgor hwn. Y cam nesaf yw y bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn adolygu'r cyflwyniad yn fanwl i sicrhau nad oes unrhyw wyrddgalchu a nodwyd y gallai hyn gymryd amser. Roedd Mr Latham yn gobeithio y byddai'r Gronfa yn gallu buddsoddi yn y cynnig cynaliadwy pan oedd wedi cwblhau ei adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi.

Yn olaf, tynnodd Mr Latham sylw at y gwaith sydd ar y gweill ar farchnadoedd preifat, ac roedd Mrs Fielder hefyd yn rhan fawr o hyn. Roedd hyn yn hanfodol o gofio bod gan y gronfa 27% o asedau mewn marchnadoedd preifat.

**PENDERFYNWYD:**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad a thrafododd raglen y Cydbwyllgor Llywodraethu.

20. **DIWEDDARIAD AM YR ECONOMI A'R FARCHNAD AC ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD**

Nododd Mr Harkin y pwyntiau allweddol canlynol:

- Pwysleisiodd y cyfnod anodd i'r holl asedau yn ystor y chwarter hyd at 30 Mehefin 2022 ac eithrio nwyddau oedd wedi perfformio'n gryf. Dros y cyfnod hwn, bu pwysau ar farchnadoedd ecwiti gyda thuedd am i lawr gan

fod elw bondiau cynyddol yn golygu fod gwerth presennol enillion y dyfodol wedi gostwng.
- Dros y chwarter, gwelwyd gostyngiad o tua £185 miliwn yng nghyfanswm gwerth y Gronfa ar y farchnad i £2,280.2 miliwn. Roedd yn credu bod asedau'r Gronfa wedi bod yn gryf yn ystod cyfnod anodd oherwydd y strategaeth buddsoddiad amrywiol yn gyffredinol.
- Er hynny, roedd y ffigurau hirdymor ar gyfer perfformiad y Gronfa yn dal yn gryf ar sail gymharol ac roedd y Gronfa wedi cael ei gwarchod drwy'r strategaeth llwybr hedfan drwy amgylcheddau economaidd anodd.
- Yr her fwyaf i'r Gronfa ar hyn o bryd yw pwysau chwyddiant oherwydd bod y gyfradd CPI 12 mis ar gyfer y DU wedi cynyddu i 9.4% ym mis Mehefin 2022. Roedd yn hanfodol sicrhau bod y Gronfa yn cael ei gwarchod, cymaint â phosibl, yn y tymor byr yn erbyn y math hwn o bwysau chwyddiant.
- Y gobaith yw y bydd y syniadau cychwynnol am Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi yn dod gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd, ond ar hyn o bryd, roedd gan y Gronfa strategaeth fuddsoddi gadarn.

**PENDERFYNWYD:**

Nododd y Pwyllgor berfformiad y Gronfa dros gyfnodau hyd at ddiwedd mis Mehefin 2022 ynghyd â diweddariad y Farchnad a'r Economi oedd yn gosod y sefyllfa yn effeithiol.

## 21 FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID

Pwysleisiodd Mr Middleman bwynt Mr Harkin am y pwysau chwyddiant ar y gronfa a nododd y pwyntiau allweddol canlynol:
- Ar 31 Mawrth 2022 (y dyddiad prisio), amcangyfrifwyd bod lefel y cyllid yn 101% ac er gwaetha'r amgylchedd buddsoddi heriol, roedd disgwyl y byddai'r Gronfa yn dal yn uwch na tharged lefel y cyllid o 95% o 2% ar 30 Mehefin 2022.
- Roedd y ffigurau yn yr adroddiad yn seiliedig ar ddiweddariad o brisiad actiwaraidd 2019 gan fod Mercer wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru prisiad actiwaraidd 2022.
- Gallai cynnydd pensiwn Ebrill 2023 arwain at gynnydd posibl o 10%+ mewn buddion aelodau. Byddai hyn o fudd i aelodau ond byddai'n rhoi straen ar y Gronfa gan y byddai'n cynyddu'r rhwymedigaethau a byddai hyn yn cael ei ystyried yn y prisiad.
- Nodwyd y newidiadau mewn cyfraddau llog. Cadarnhaodd Mr Middleman y mater hwn a byddai'r ffordd y bydd y Gronfa yn delio â hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod FRMG yng nghyd-destun sut y bydd yn effeithio ar gyllid a'r llwybr hedfan.
- Fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd yr amddiffyniad ecwiti wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer y Gronfa yn y chwarter diwethaf er gwaetha'r cyfnod heriol. Roedd Mr Middleman yn credu fod y Gronfa yn y sefyllfa orau ar

hyn o bryd oherwydd y mesurau amddiffyn oedd yn eu lle o'r strategaeth llwybr hedfan a chyllid.

Roedd gan Fanc Lloegr darged i leihau'r gyfradd chwyddiant. Felly gofynnodd Mr Latham a oedd Mr Middleman yn credu bod hyn yn bosibl. Dywedodd Mr Middleman, ar gyfer prisiad 2022, tybir na fydd Banc Lloegr yn bodloni ei darged CPI 2% mor gyflym ag oedd yn ei ddweud, ond nid yw'n afresymol credu y gellir ei fodloni mewn 5 mlynedd, dyweder, sef yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn y rhagdybiaethau dros dro. Byddai lleihau chwyddiant yn gynt yn bositif o ran rhwymedigaethau'r Gronfa (os bydd popeth arall yn gyfartal).

**PENDERFYNWYD:**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad ac ystyriodd gynnwys yr adroddiad.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd paragraffau 14 ac 18 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

22. **RHAGLEN WAITH STRATEGAETH SEIBER A CHANLLAWIAU HYLENDID SEIBER - CYFRINACHOL**

Cafodd yr eitem hon ei chyflwyno a'i thrafod.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Bydd cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2022 a gobeithio y bydd y Bwrdd yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm.

……………………………………

**Y Cadeirydd**